**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

14 Rhagfyr 2016

Annwyl gyfaill

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cytuno i ymgymryd ag ymchwiliad i hawliau dynol yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn ymchwiliad byr Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad i Ddyfodol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, ac mae hefyd wedi'i lywio gan ymgynghoriad y Pwyllgor ar flaenoriaethau a gynhaliwyd yn ystod haf 2016.

## Cylch gorchwyl

Er mwyn ein cynorthwyo gyda'n gwaith byddem yn croesawu eich barn ar unrhyw rai, neu bob un o'r pwyntiau hyn:

- yr effaith ar y modd yr amddiffynnir hawliau dynol yng Nghymru wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd,

- effaith cynnig Llywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyflwyno Deddf Hawliau Prydeinig i gymryd ei le, a

- chanfyddiadau'r cyhoedd ynglŷn â hawliau dynol yng Nghymru, yn arbennig pa mor ddealladwy a pherthnasol ydynt i bobl Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Anfonwch eich barn i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru erbyn **dydd Gwener 10 Chwefror 2017.**

Mae rhagor o wybodaeth ar sut i gyfrannu at yr ymgynghoriad a manylion am bolisi'r cynulliad at ddatgelu gwybodaeth ar dudalennau gwe'r Cynulliad: www.cynulliad.cymru/ymgynghoriadau

Yn gywir,

John Griffiths AC

Cadeirydd